

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 13eg o Fai 2021

Agenda

1. Presennol:
2. Ymddiheuriadau:
3. Datgan buddiant
4. Derbyn cofnodion 8fed o Ebrill 2021
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Materion ariannol
 - Cyfarfod IBC 28ain o Ebrill 2021
 - i. Mantolen ariannol/adroddiad blynyddol
 - ii. Ceisiadau Nawdd
 - iii. Taliadau
 - iv. Cais talu am gladdu mlaen llaw
 - v. Yswiriant 2021-22
 - vi. Canolfan Newydd
 1. logo
 - BDO
7. Logo newydd
8. Cynllunio
 - Cais Cynllunio C21/0397/25/LL Lleoliad: Fodol Ganol Farm, Ffordd Y Hafod, Bangor, LL57 4BU Bwriad: Dymchwel y tŷ presennol a chodi tŷ newydd yn ei le
9. Materion y Clerc
 - Gohebiaeth Amcanbris Zurich
 - Yswiriant Angen adnewyddu yn Mehefin
 - Cofrestru angladdau – beddi a chyllid y fynwent yn electronig
 - Septic Tanc Diweddariad
 - Cysgodfan Nant y Mownt
10. Materion y Cyngorwyr
 - Cyng E Jones Diweddariad cofrestru Llwybr Treborth

Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir

Cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 08fed o Ebrill 2021

1. Presennol: Cyngorwyr
L A James; D. Jones-Morris; J. Griffiths; E. Jones; M. Baines; J. Pierce; D. W. Jones; J Lewis; B.Jones a'r Clerc E Jones
2. Ymddiheuriadau:
Cyngorwyr H Griffiths; T A Williams; M. Lynch;
Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cyng D W Jones wnaeth hefyd offrymu g weddi cyn croesawu pawb oedd bresennol.
3. Datgan buddiant
Esbonwyd y broses ynglyn a datgan buddiant yn rhithiol unwaith eto.
Datgan ar lafar i'r Clerc allu ei gofnodi ag i'r Cyngorydd wedyn anfon ffurflen wedi ei llofnodi Dim datganiad
4. Derbyn cofnodion 11eg o Fawrth 2021 – Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir
Cyng J Pierce yn cynnig a Cyng D Jones-Morris yn eilio
5. Materion yn codi o'r cofnodion
Canolfan Penrhos
Mi fydd ymweliad yn cael ei drefnu yn weddol fuan
Cyng L A James am drefnu holi lle yn union mae'r prosiect wedi cyrraedd erbyn hyn a hefyd ar y cyd ag eraill cychwyn trafodaethau hefo Pwyllgor rheoli'r ganolfan bresennol pa agweddau o'r gwaith fyddai nhw'n fodlon ystyried ei ariannu.
Angen gwneud cais i Wynedd am amcanbris o'n costau am y gwaith ychwanegol mae'r Cyngor yma wedi ei ofyn amdanynt
Cofrestru Llwybr Treborth diweddariad
Adroddwyd fod llawer o alw wedi bod am ffurflenni i ddatgan defnydd a bod disgwyl ychwaneg i mewn.
Cytunwyd ein bod wedi catiatau 2 fis a felly cau yr ymgyrch ddiwedd Mai
6. Materion ariannol
 - Cyfarfod IBC 24ain o Fawrth 2021
 - i. Mantolen ariannol – Cafodd y fantolen ariannol ei rhannu ar y sgrin yn dangos £21,767.17 yn y cyfrif Cyfredol a £25,037.19 yn y cyfrif Cadw
 - ii. 4 o geisiadau Nawdd olaf y flwyddyn ariannol wedi dod gyda'r argymhelliad i gyfrannu £300 yr un iddynt sef Clwb Y Garnedd Cyfeillion Ysgol Tryfan canolfan Glasinfryn a Clwb loga Glasinfryn
Cafodd y 4 argymhelliad ei gymeradwyo
 - iii. Telerau'r Fynwent Trafodwyd nad oedd y telerau wedi cael eu trafod ers 2018 a'i bod felly yn amserol iddynt gael eu adolygu. Gofynwyd i'r Clerc ddarparu mantolen ariannol ar gyfer y fynwent yn dangos y costau a'r derbyniadau erbyn y Cyngor Llawn i gael trafodaeth bellach. 'Roedd y Clerc wedi darparu ag anfon y fantolen cyn y cyfarfod heno oedd yn dangos diffyg o £1,832 dros y flwyddyn. Esbonwyd fod hynny oherwydd 'costau unwaith' (one-off) o £1,509 ond byddai hefyd arbediad arall o £300 yn dilyn ymddiswyddiad y gofaluwraig.
Cytunwyd i gadw at y telerau presennol am y flwyddyn yma

BDO Dim i adrodd yn ol arno

7. Cynllunio

Dim Cais Cynllunio o'r ardal wedi ei gyflwyo

8. Materion y Clerc

- **Gohebiaeth** Cadarnhad o dderbyn nawdd gan Cyfeillion Ysbyty Gwynedd
- **Yswiriant** Angen adnewyddu yn Mehefin – Cytundeb 3 blynedd BHIB ar ben Y
Cyngor felly yn rhydd i holi am amcanbrisiau gan unrhyw asiant eleni
Y Clerc wedi gwneud rhywfaint o ymholiadau lleol a hefyd wedi derbyn enw gan y Cyng B
Jones yn dilyn cyfarfodydd Unllais
Dim prisiau hyd yma wedi cyrraedd
- **Septic Tanc** Dim diweddariad i adrodd ond dal mewn cyswllt a Mr W Font
- **Gamlins** Trafodwyd amseru gofyn i'n Cyfreithwyr ysgrifennu at ddeiliaid yr Hen Eglwys
yn Glasinfryn yn ei rhybuddio na fydd y ganolfan yn parhau i ddefnyddio y septic tanc
**Cytunwyd i wneud hynny unwaith bydd sicrwydd fod y gwaith yn mynd ymlaen a sicrhau
hefyd fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwbodol hefyd**

9. Materion y Cynghorwyr

- a. Cyng L A James
 - i. Cofrestr asesiadau risg **Y gofrestr angen ei adolygu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesa**
 - ii. Canolfan Penrhos **Adroddiad dan Materion yn codi uchod**
- b. Cyng E Jones Diweddariad cofrestru Llwybr Treborth
Adroddiad eto dan Materion yn codi uchod
- c. Cyng M Baines
 - i. Diweddariad Twrw traffig ar yr A55 **Adroddiad eto dan Materion yn codi uchod**
 - ii. Bryn Howel **Nodwyd fod ymholiad wedi ei wneud i'r Adran Gorfodaeth a'u bod
nhw'n edrych i mewn i'r materion drafodwyd** Ychwanegodd Cyng J Lewis ei bod yn
warthus fod y ffasiwn chwalu wedi digwydd, i adeiladau mor hynafol ,a fod llawer iawn
o'r trigolion lleol yn gandryll fod y perchnogion wedi cael gwneud hyn. Tra'n cytuno
eglwurwyd fod gan berchnogion yr hawl i addasu eu eiddo.
Da o beth efallai fyddai cael cynrychiolaeth o'r adran gynllunio/gorfodaeth i un o'n
cyfarfodydd
- d. Cyng J Lewis
 - i. Mae ymgais i gyfuno cymunedau ar droed /beicio ers peth amser a chyfnod anfon
sylwadau ar agor gan Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd. Mae grwp 'Parchu Pentir' yn
awyddus iawn i gefnogi menter o'r fath ag yn awyddus i weld linc rhwng ardal
Deiniolen?Llanberis ag ymlaen am Lon Las Ogwen yn Felin Hen.
**Datgelwyd cefnogaeth y Cyngor i'r ymgyrch yn ogystal a annog pawb fel unigolion i
leisio eu barn**
- e. Cyng D Morris-Jones
 - i. Ffordd Menai Adroddwyd pryder gan y Cyng ynglyn a'r cyflymder mae rhai ceir yn
drafaelio arno wrth fynd fyny yr allt yn ogystal a'r ffaith ei bod yn Ffordd dywyll a'r
llnau ochrau yn dal heb ei wneud
Clerc i gysylltu a Gwynedd

10.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45